**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1SN

Llywydd@senedd.wales

01 Gorffennaf 2022

Annwyl Elin

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS, Bil Hawliau (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Mehefin.

O'n dadansoddiad cychwynnol, mae'r Bil yn cyfeirio at feysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Mewn llythyr at Brif Weinidog Cymru ar 22 Mehefin, mae Dirprwy Brif Weinidog y DU yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddechrau'r broses i baratoi ar gyfer cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru. Fodd bynnag, o ystyried na fu braidd dim ymgysylltu â Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU cyn ei gyflwyno er gwaethaf cymhlethdod y materion sy'n codi yn y Bil, ni fu'n bosibl inni ystyried yn briodol eto beth fydd effaith yr hyn sy'n cael ei gynnig ar y meysydd sydd wedi'u datganoli.


Bydd angen inni gynnal dadansoddiad manwl o'r Bil hwn. Fodd bynnag, dim ond pump o'r 41 cymal o'r Bil a rannwyd gyda ni cyn ei gyflwyno. Ac roedd y pum cymal a rannwyd yn ddiystyr i raddau helaeth heb weld y cymalau eraill y maent yn berthnasol iddynt. Ni rannwyd dim un o'r pum atodlen ymlaen llaw. Mae hwn yn Fil sydd ag arwyddocâd cyfansoddiadol mawr, sy'n gymhleth iawn ac sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, felly bydd angen edrych yn fanwl iawn ar bob darpariaeth.

Lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar y cynnig i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 ar 21 Rhagfyr 2021. Cyflwynwyd ymateb gennym i'r ymgynghoriad hwn, a ddaeth i ben ar 8 Mawrth, a chafodd Datganiad Ysgrifenedig ei gyhoeddi gennym ar yr un diwrnod. Ar 3 Mai, cynhaliwyd dadl gan Lywodraeth Cymru ar Hawliau Dynol yn y Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig arall ar y diwrnod y cyflwynwyd y Bil.

Rydym yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau darpariaethau datganoledig y ddeddfwriaeth arfaethedig. Er y bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos ar gyfer Rheol Sefydlog 29, gobeithiwn osod y Memorandwm yn gynnar yn ystod toriad haf y Senedd.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution